Adroddiad i'r	Adroddiad y Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	18 Hydref 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Rhys Thomas – Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau / David Lorey – Swyddog Arweiniol Eiddo Corfforaethol a'r Stoc Dai
Awdur yr adroddiad	Katrina Allen – Uwch Bensaer / Mark Cassidy – Rheolwr Gweithrediadau Eiddo
Teitl	System Gwresogi Ardal Betws Gwerful Goch

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y posibilrwydd o system gwresogi ardal ar gyfer pentref Betws Gwerful Goch, gan ymgorffori darpariaeth pympiau gwres o'r ddaear (GSHP) i anheddau'r Cyngor ac anheddau sy'n eiddo preifat.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am yr ymgysylltu a fu gyda'r gymuned yn ystod Awst / Medi 2022, a'r cynnig i benodi Kensa yn gontractwr cymeradwy ar gyfer y camau dylunio.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgaredd ymgysylltu ac yn cymeradwyo penodi'r contractwr Kensa i fynd ati gyda cham dylunio'r prosiect. Bydd cam hwn y prosiect yn cymryd 12-16 wythnos.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Fis Rhagfyr 2021 gwahoddodd Llywodraeth Cymru gynigion ar gyfer cylch 2.1 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Yr oedd Sir Ddinbych eisoes wedi diogelu oddeutu £4 miliwn o gynigion blaenorol yn 2020/21 a 2021/22.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg. This document is available in Welsh.

4.2. Cafodd cyfle i ymestyn y cynnig i berchnogion cartrefi preifat mewn ardaloedd sydd heb gyflenwad nwy / ardaloedd sy'n anodd eu gwresogi ei gyflwyno ar gyfer pentref Betws Gwerful Goch. Seiliwyd y rhesymeg dros ddewis y pentref ar eiddo a oedd yn perfformio'n wael (yn thermol), diffyg cyflenwad nwy drwy'r prif gyflenwad (gan gynyddu costau gwresogi), a'r amgylchiadau cymharol anodd o ddarparu cynllun mewn ardal ddiarffordd (y meddylfryd yw: os gallwn ddarparu yma, gallwn ddarparu bron yn unrhyw le o fewn CSDd).

4.3. Dewiswyd partner technegol drwy gaffael gyda fframwaith y Cynghrair Caffael Cymreig (Kensa) ac astudiaethau dichonoldeb cychwynnol a wnaed a oedd yn cefnogi hyfywedd y cynllun.

4.4. Fis Ionawr 2022, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer y cynllun, gan gydnabod agwedd arloesol y dull pentref cyfan. Dyfarnwyd cyllid grant ar y ddealltwriaeth y darperid y prosiect yn ystod 2022/2023.

4.5. Cydnabuwyd y byddai hyn yn her i bawb, ac y byddai ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol i ddarparu'n llwyddiannus – yn arbennig i roi hyder i berchnogion cartrefi preifat bod y cynigion yn cynrychioli buddion ariannol ac amgylcheddol da.

4.6. Cam 1: cychwynnwyd cynllun ymgynghori ac ymgysylltu yn yr wythnos yn dechrau 7 Medi, a oedd yn cynnwys cyfarfod cymunedol plwyf, llythyrau / taflenni gwybodaeth, sioeau teithiol, mynd o ddrws i ddrws, cofrestru ar wefan gyda chodau unigryw i berchnogion, a sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd yn y Capel lleol, ac ati.

4.7. Mae gweithgaredd ymgysylltu Cam 1 bron wedi ei gwblhau (canolbwyntio ar gofrestriadau), sydd bellach yn caniatáu i ni gynnal arolygon manwl, gwaith dylunio a chostau, a fydd yn cael eu datblygu gan Kensa. Hyd yn hyn, mae gan 26 o breswylwyr ddiddordeb, mae 4 preswylydd wedi gwrthod, mae 7 wedi dweud eu bod angen mwy o wybodaeth, ac ni chafwyd ymateb eto o 17 o gartrefi. (Y mae rhai eiddo gweigion yn y pentref.) Bydd mwy o ymgysylltu / mynd o ddrws i ddrws yn parhau tra bod yr Arolwg Dylunio'n mynd rhagddo.

4.8. Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref 2022, yn rhoi manylion llawn canlyniad yr ymgysylltu â'r gymuned, cynigion manwl a chostau, ac yn gofyn am

gymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r contract. Hyd yma, cynlluniwyd pedwar arolwg ar gyfer cartrefi tenantiaid / preswylwyr.

4.9. Cysylltwyd â'r Aelod Lleol a'i friffio cyn cynnal yr ymgysylltu.

4.10. Mae'r elfen ddylunio yn: £106,189.00, sy'n cynnwys:

- Cyfrifiadau colli gwres fesul ystafell i safon BS EN12831
- Arolwg o bob eiddo ar y cwmpas, gan gynnwys Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)
- Rhestr o allyrwyr gwres sydd eu hangen
- Diagramau o system ddosbarthu gwres
- Lleoliad pwmp gwres a silindr a dyluniad mecanyddol a thrydanol
- Manylion cynnyrch systemau a lleoliadau arbennig arfaethedig
- Cydymffurfiaeth gyda holl ofynion y MCS o ran dylunio systemau
- Astudiaeth ddesg ddaearegol
- Dyluniad twll turio a manylion cynllun a drilio
- Dyluniad Hydrolig System 2D
- Cwmpas y Gwaith
- Dyfynbris penodedig i gyflawni Cwmpas y Gwaith
- Paratoi rig drilio a phrawf ymateb thermol er mwyn canfod dargludedd y tir a risg artesiaidd. (£60,000)

Byddwn yn cynnal ein harolygon ein hunain i gynhyrchu elfen 'Basbort' y cynllun.

Gofynnwyd i'r tîm asbestos drefnu arolygon i'r eiddo hyn pan fydd gennym restr lawn o'r rhai sydd wedi cofrestru.

Y gost uchod yw'r hyn yr ydym yn gofyn amdano ar y cam hwn. Fodd bynnag, mae hwn yn Ddyfarniad Uniongyrchol gan ddefnyddio'r Gynghrair Caffael Cymreig, a thybir y byddwn yn parhau i ddefnyddio'i wasanaethau ar ôl y cam dylunio hyd at gwblhau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. **Tai:** Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni'r tai hyn yn gymysgedd o rai E, F a G, sef y rhai sy'n perfformio waethaf o ran ynni. Targed gofynnol Sir Ddinbych yw sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni A ar gyfer ein tai, felly bydd y cynllun hwn yn helpu i roi trigolion ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed.

5.2. **Clymu Cymunedau:** Bydd y cynllun hwn yn helpu i greu cymuned wydn a chysylltiedig, gan y bydd yn rheoli ei hisadeiledd trydan ei hun. Mae'r cynllun peilot hwn yn ffurfio'r sail ar gyfer cyflwyno'r cynllun i bentrefi cyfagos, os yw'n addas.

5.3. **Yr Amgylchedd a’r Hinsawdd:** Gorau po gyntaf y bydd ein cartrefi’n peidio â defnyddio tanwydd ffosil er mwyn i ni fel Sir gyrraedd ein targedau carbon. Mae pympiau gwres o’r ddaear yn ffurf effeithlon o ynni adnewyddadwy. Bydd canolbwyntio ar gael pentref cyfan sydd ddim ar y grid yn galluogi Sir Ddinbych i leihau swm carbon y Sir.

5.4. **Mynd i’r afael ag Amddifadedd:** Mae preswylwyr y pentref hwn dan anfantais am nad oes ganddynt ddewis ond defnyddio olew / LPG neu drydan yn eu cartrefi. Yn ôl cofnodion Tystysgrifau Perfformiad Ynni ar gyfer y tai hyn, mae rhai biliau ynni hyd at £3,000 / £4,000 y flwyddyn (yn seiliedig ar 2020). Bydd y biliau hyn gryn dipyn yn uwch erbyn hyn. Mae pris olew £/L wedi dyblu eleni. Bydd y cynllun hwn o gymorth i leihau ansicrwydd tanwydd ar gyfer y pentref.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y cynllun yn costio oddeutu £1.0 miliwn.

6.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £670,000 i ddiwallu cost pympiau gwres o’r ddaear i’r anheddau preifat yn yr ardal.

6.3. Bydd Cyfrif Refeniw Tai CSDd yn cyflenwi ar gyfer gwaith gwella o oddeutu £330,000 i’r stoc tai cymdeithasol yn ychwanegol at ddarparu pympiau gwres o’r ddaear.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Mae Asesiad o’r Effaith ar Les wedi ei wneud. Yr oedd y sgôr ar gyfer y dull cynaliadwyedd yn 3 seren o 4, neu 34/35. Mae’r holl fanylion yn yr Asesiad o’r Effaith ar Les sydd wedi ei atodi.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cwblhawyd y gweithgaredd ymgynghori ac ymgysylltu â’r gymuned. Yr ydym bellach yn disgwyl i denantiaid a pherchnogion cartrefi dderbyn y cynnig am y system wresogi o’r ddaear. Unwaith fydd y Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth a’r tenantiaid wedi ymuno, bydd cyfnod o wneud arolwg o bob eiddo yn dechrau.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn Adran 6, mae'r cynllun ei hun wedi denu cyllid grant 100% gan Lywodraeth Cymru. Bydd mwy o waith gwella i'r stoc tai cymdeithasol, sy'n dod yn oddeutu £330,000 ac wedi ei ariannu gan y Cyfrif Refeniw Tai, hefyd yn digwydd i ategu'r cynllun a sicrhau bod ein tenantiaid yn cael y budd mwyaf. Mae hwn yn brosiect cyffrous, ac mae wedi ei gefnogi'n llawn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Perchnogion preifat yn gwrthod derbyn y cynllun / gwaith i'w cartrefi. Bydd yr ymarfer ymgysylltu yn lliniaru'r risg hwn drwy hyrwyddo'r gwelliannau ariannol ac amgylcheddol.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae'r pŵer i wneud penderfyniad wedi'i gynnwys yn Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000, Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972, Rheoliad 33 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015